Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol



# NEWYDDION Y SECTOR DYSGU CYMRAEG

## Haf 2025



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn

# Croeso

Helo bawb! Croeso i rifyn yr haf o gylchlythyr y sector Dysgu Cymraeg.

Cyn manylu ar rai o'r cynlluniau a digwyddiadau sy ar y gweill, rhaid dathlu'r newyddion am y cynnydd yn nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg. Mae'r data diweddaraf, ar gyfer 2023-2024, yn dangos bod 18,330 o unigolion wedi cwblhau ein cyrsiau - y nifer uchaf ers i'r Ganolfan gymryd cyfrifoldeb dros y maes yn 2016.

Mae mwy o bobl yn dysgu Cymraeg, mae mwy yn dysgu ar lefelau uwch, ac mae'r ffrydiau gwaith newydd yn arwain at gynnydd. Diolch i bob un ohonoch chi am eich holl waith, ac am gefnogi ac ysbrydoli dysgwyr ledled Cymru. Am fwy o wybodaeth am y data, dilynwch y ddolen nesaf: Ystadegau 2023 - 2024 | Dysgu Cymraeg

Diolch, hefyd, i'r 308 ohonoch wnaeth gwblhau holiadur y gweithlu rai misoedd yn ôl. Braf oedd dysgu bod 96% o'r gweithlu yn teimlo'n falch o weithio i'r sector Dysgu Cymraeg. Mae eich adborth yn werthfawr dros ben, a byddwn yn mynd ati i ymdrin â rhai o'r ymatebion gafodd eu cyflwyno, er mwyn eich cefnogi ymhellach.

Mae'r Ganolfan yn edrych ymlaen at gyfnod prysur yr haf. Mae llawer o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill – mae rhai ohonynt wedi eu rhestru yn y cylchlythyr, a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu'n fuan iawn.

Roedd yn hyfryd gweld llawer ohonoch chi yn y Gynhadledd Genedlaethol yn ddiweddar. Mae crynodeb o'r cyflwyniadau yn y cylchlythyr, ac mae croeso i chi gysylltu os oes unrhyw gwestiynau.

Dymuniadau gorau i chi gyd dros y misoedd nesaf.

Cofion,

**Dona**

**Dona Lewis**
**Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**






# Blas ar y Gynhadledd Genedlaethol

## Cyflwyniad Dona Lewis:

Eglurodd Dona bod gwaith y Ganolfan wedi ehangu a nifer y dysgwyr a siaradwyr newydd wedi cynyddu, a hynny'n destun balchder a chyffro i bawb. Diolchodd i'r tiwtoriaid a holl staff y sector, a phwysleisiodd bod y gwaith o ddysgu'r iaith i oedolion mewn cymunedau wrth galon cenhadaeth y Ganolfan. Cyfeiriodd at lwyddiant model dysgu'r sector, sydd wedi'i alinio â'r 'CEFR', sy'n gosod un llwybr dysgu clir i ddod yn siaradwr Cymraeg. Diolchodd i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth barhaus, ac i holl bartneriaid y Ganolfan. Ymhelaethodd Dona ar rai o brif uchafbwyntiau'r Ganolfan:

# Y Gynhadledd Genedlaethol

- **Teuluoedd**
  Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys cyrsiau Clwb Cwtsh, mewn partneriaeth â Mudiad Meithrin, tiwtoriaid sy'n ymweld ag ysgolion, ac adnoddau i helpu rhieni.

- **Gweithluoedd**
  Yn ddiweddar mae cyrsiau Dysgu Cymraeg wedi dechrau gyda chwmni Airbus, elusen Mind Cymru a lluoedd heddlu Gogledd Cymru a Gwent. Mae'r gwaith gyda'r sector Iechyd a Gofal yn parhau i dyfu. Mae tiwtor wedi ei leoli ym mhob Bwrdd Iechyd, a phrosiectau i gefnogi gweithluoedd arbenigol. Mae'r gwasanaethau ar gyfer y gweithlu addysg hefyd yn ehangu, ac o fis Medi ymlaen bydd hyfforddiant dwys y cynllun sabothol o dan ofal y Ganolfan.

- **Pobl ifanc 16-25 oed**
  Mae gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu teilwra ar gyfer y gynulleidfa yma, gyda mwy o bobl ifanc nag erioed yn cwblhau cyrsiau'r Ganolfan.



- **Partneriaethau**
  Mae'r bartneriaeth â Chomisiynydd y Gymraeg wedi ymestyn, a'r Ganolfan yn llwyddo i ddylanwadu ar ddefnydd o'r iaith mewn sefydliadau. Mae'r Ganolfan yn cydweithio â BBC Radio Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru, Theatr Cymru ac eraill i greu cyfleoedd i ddysgwyr fwynhau eu Cymraeg.

- **Croeso'n ôl**
  Mae'r Ganolfan yn croesawu pobl yn ôl at y Gymraeg, ac yn cefnogi unigolion sydd wedi colli hyder i ddefnyddio'r iaith.




### Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

Pwysleisiodd Mark Drakeford bod y Gymraeg yn perthyn i ni i gyd a bod croeso i bawb, ble bynnag maen nhw ar eu taith iaith, i siarad a mwynhau'r Gymraeg. Roedd yn falch iawn bod y sector wedi addasu ac arloesi, a diolchodd am yr holl waith caled. Eglurodd bod cynnal y gwasanaeth i ddysgwyr yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth, ac y byddai dysgu cymunedol yn parhau wrth wraidd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, sy'n cael ei sefydlu yn sgil Bil y Gymraeg ac Addysg. Dywedodd bod sicrhau cefnogaeth sefydlog, arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg ar hyd pob cam o fywyd yn hollbwysig, a bod llawer o gyfleoedd cyffrous o'n blaenau.



### Mererid Wyn Williams, Cyfarwyddwr cynorthwyol - arolygu a gwasanaethau canolog Estyn

Rhoddodd Mererid drosolwg o waith Estyn, a chyflwynodd y fframwaith arolygu newydd ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg, sy'n cynnig model mwy hyblyg. Mae'r model yn cynnwys arolygiadau llawn o sampl o ddarparwyr Dysgu Cymraeg, arolygiadau o'r Ganolfan, arolygiadau â thema – ac mae'r cyntaf o'r rheiny, ar y cynllun 'Cymraeg Gwaith' ar y gweill – a gwerthusiadau cyfnodol o waith darparwyr unigol.



### Geraint Evans, Prif Weithredwr S4C

Eglurodd Geraint bod y berthynas â'r Ganolfan yn un allweddol bwysig i S4C, a bod dangos ein byd trwy'r Gymraeg ymhlith blaenoriaethau'r sianel, wrth iddi gefnogi amcanion Cymraeg 2050. Cyfeiriodd at yr holl gynnwys ar gyfer dysgwyr Cymraeg ar bob lefel, a phwysigrwydd croesawu pawb, beth bynnag fo'u gallu ieithyddol. Erbyn hyn, mae cynnwys ar gael ar sawl llwyfan, gan gynnwys YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol eraill, ac isdeitlau Cymraeg a Saesneg ar raglenni ar lwyfan S4C Clic. Cyfeiriodd Geraint at lwyddiant cyfres Y Llais, oedd wedi denu cynulleidfaoedd iau, a rhoi llwyfan i – a dathlu - unigolion sy'n dysgu'r Gymraeg.

# Digwyddiadau

Bydd y Ganolfan yn brysur yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr, ym Mharc Margam, Castell Nedd Port Talbot rhwng 26-31 Mai. Edrychwn ymlaen at ddathlu doniau ein dysgwyr iau, gyda chystadlaethau Medal Bobi Jones a Medal y Dysgwyr ar 28 Mai. Bydd y Ganolfan yn cynnal Panel Trafod sy'n edrych ar y ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc, a bydd Dona Lewis a Meinir Ebbsworth yn cymryd rhan mewn digwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan yr Urdd ac S4C.

Eisteddfod Dur a Môr,
Parc Margam a'r Fro 2025

Yn ychwanegol, bydd y Ganolfan yn croesawu criw o bobl ifanc leol i'r maes ddydd Gwener 31 Mai. Mae Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe wedi bod yn cynnal sesiynau lefel Mynediad a Chodi Hyder i ddisgyblion chweched dosbarth ac addysg bellach yr ardal ers y Nadolig. Bydd yn gyfle i ddiolch i'r criw am eu gwaith caled, a rhoi cyfle iddynt fwynhau eu Cymraeg ar y maes.

Wedi'r Urdd byddwn yn troi ein golygon at ddigwyddiad arbennig yn y Senedd, Bae Caerdydd ar 3 Gorffennaf, sy'n trafod y gwasanaethau Dysgu Cymraeg ar gyfer y gweithlu addysg.

Cofiwch ddod i'n gweld ni ym Maes D Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam rhwng 2 a 9 Awst. Mae arlwy lawn wedi ei chynllunio, gan gynnwys sesiynau am y 'CEFR' a'r cynllun Iechyd a Gofal ym Mhabell y Cymdeithasau. Ddydd Sadwrn 2 Awst byddwn yn cyflwyno Tlws Coffa Aled Roberts. Caiff y tlws ei gyflwyno'n flynyddol i wirfoddolwr/aig sy wedi gwneud cyfraniad nodedig i'r sector Dysgu Cymraeg. Os hoffech chi enwebu unigolyn, mae croeso i chi wneud hynny ar y ddolen isod cyn 15 Mehefin.




[Tlws Coffa Aled Roberts | Dysgu Cymraeg]

Cofiwch hefyd am wobr Dysgwr y Flwyddyn, sy'n cael ei chynnal ar y dydd Mercher. Mae'r rowndiau cynderfynol wrthi'n cael eu cynnal, a bydd y rhestr fer yn cael ei chyhoeddi maes o law.




## Siawns am Sgwrs

Cynhelir Siawns am Sgwrs ola'r flwyddyn nos Fawrth, 1 Gorffennaf pan fydd Elwyn Hughes yn cyflwyno uchafbwyntiau Eisteddfod Wrecsam i ddysgwyr.  Mae croeso i chi rannu'r wybodaeth gyda'ch dysgwyr, a'u hannog i gofrestru erbyn 29 Mehefin:

Siawns am Sgwrs: Eisteddfod Wrecsam | Dysgu Cymraeg

## Penwythnosau preswyl

Braf yw gallu adrodd bod cwrs preswyl Glan-llyn wedi bod yn llwyddiant eto eleni.  Cafodd y dysgwyr gyfle i gymryd rhan mewn sesiynau crefft, saethyddiaeth, a meddwlgarwch yn ogystal ag ymarfer eu Cymraeg ar stryd fawr y Bala.  Mi wnaeth y cwrs preswyl i bobl ifanc lenwi'n syth bin eleni, a 'dyn ni'n edrych ymlaen at groesawu'r criw i Gaerfyrddin fis Gorffennaf.

# Hyfforddiant

Mae dwy uned hunan-astudio wedi'u cyhoeddi ar Academi, sef Anghenion Dysgu Ychwanegol a Sgiliau Gwrando.  Bydd tiwtoriaid fydd wedi gwneud y sesiynau ar-lein yn cael eu gwahodd i drafod y pynciau mewn sesiynau rhithiol, yn ystod mis Mehefin.

Hyfforddiant WSOL/ESOL yw'r trydydd sesiwn sy wedi ei drefnu.  Y nod yw rhoi cyfle i diwtoriaid Dysgu Cymraeg ac ESOL rwydweithio, cyflwyno cwrs Croeso i Bawb y Ganolfan, a dysgu am effaith trawma wrth ddysgu ffoaduriaid a cheiswyr lloches.  Mae'r dyddiadau wedi eu rhestru isod...

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6 Mehefin** | **Sgiliau Gwrando** | **Y tiwtoriaid a fydd wedi cwblhau'r uned ar-lein** | **Rhithiol** |
| **12 Mehefin** | **Anghenion Dysgu Ychwanegol** | **Y tiwtoriaid a fydd wedi cwblhau'r uned ar-lein** | **Rhithiol** |
| **23 Mehefin** | **WSOL/ESOL – rhannu gwybodaeth** | **Tiwtoriaid Croeso i Bawb ac ESOL** | **Coleg Cambria, Wrecsam** |

# ALTE ac IATEFL

Fis Ebrill, tro CBAC oedd lletya cynhadledd ALTE, sef yr *Association of Language Testers in Europe*, a hynny yng Nghaerdydd.  Yn ystod y gynhadledd, cafwyd cyflwyniadau a gweithdai ar y thema 'Asesu Siarad a Siarad Rhyngweithiol'.  Mae rhagor o wybodaeth am ALTE ar gael ar y wefan: www.alte.org.  Ceir gwybodaeth am gyfarfodydd ALTE o'r gorffennol yn y Bwletin Arholiadau Cymraeg i Oedolion blynyddol: CBAC.



Mi wnaeth aelodau tîm Dysgu ac Addysgu'r Ganolfan fynychu cynhadledd IATEFL, sy'n ymwneud â dysgu Saesneg fel ail iaith.  Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd cwrdd â David Heathfield, sy'n arbenigo mewn dysgu iaith trwy storïau, a Marcas Mac an Tuairneir, sy'n ymwneud â'r byd Gaeleg.  Bydd y criw aeth i IATEFL yn rhaeadru gwybodaeth mewn cyfres o sesiynau rhithiol yn ystod wythnos 23 Mehefin.  Mae'r sesiynau i gyd i'w gweld ar Academi.

# Ymgyrch yr haf

Bydd y Ganolfan yn cynnal ymgyrch dros yr haf i helpu annog dysgwyr cyfredol i ddal ati, ac i ddenu dysgwyr newydd. Fis Mehefin a Gorffennaf, bydd cynnig Cyw Cynnar i ddysgwyr cyfredol, sef gostyngiad 50% drwy ddefnyddio'r cod 'CYW25' os ydyn nhw'n cofrestru ar eu cwrs nesaf cyn 31 Gorffennaf. Yn ystod Awst a Medi, bydd y pwyslais yn newid i ddenu dysgwyr newydd, gyda gostyngiad 50% ar gael iddyn nhw hefyd, wrth ddefnyddio'r cod 'WELSH25'.







## Hwyl yr Haf

Mae cylchgrawn Hwyl yr Haf ar fin cael ei gyhoeddi – bydd y swyddogion marchnata yn anfon dolen atoch cyn bo hir. Bydd copïau papur hefyd ar gael, felly a wnewch chi annog eich dysgwyr i roi cynnig ar ddarllen y cylchgrawn dros yr haf? Ar ddechrau pob erthygl, mae lliw i ddynodi lefel yr erthygl, gydag erthyglau yn addas i ddysgwyr ar bob lefel. Unwaith yn rhagor eleni, 'dyn ni wedi cynnwys cystadleuaeth i ennill cwrs Dysgu Cymraeg am ddim. Y dasg ydy ysgrifennu am yr ardal leol, a byddwn yn dewis tri enillydd. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hyrwyddo'r cylchgrawn, a'r gystadleuaeth cymaint â phosib.

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAEG
Dysgu
Learn